Cymdeithas Athrawon Cristnogol Cymru (CACC)

www.act-wales.org.uk

Polisi Preifatrwydd

(diweddarwyd ddiwethaf 26 Ebrill 2006)

Mae Cymdeithas Athrawon Cristnogol Cymru (CACC / ACTW) yn cymryd eich preifatrwydd o ddifrif. Rydym yn dilyn y gweithdrefnau a nodir yn y polisi hwn wrth ddefnyddio eich gwybodaeth.

Trwy ddefnyddio'r safle hwn i roi eich gwybodaeth i ni, rydych yn derbyn y telerau ac yn caniatáu i ni ddefnyddio eich gwybodaeth yn unol â'r polisi hwn. Hysbysir chi o unrhyw newidiadau i'r polisi hwn drwy eu harddangos ar y safle.

Os byddwch yn cysylltu â ni i wneud ymholiad cyffredinol, i roi cyfraniad neu rodd i ACTW, neu i brynu cynnyrch, byddwn yn casglu gwybodaeth amdanoch gan gynnwys eich enw, manylion cyswllt ac os bydd angen talu i ni, gwybodaeth am eich cerdyn credyd neu ddebyd. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddelio gyda'ch ymholiadau, cyflenwi'r nwyddau neu wasanaeth y gofynnwyd amdanynt, anfon bil atoch a chysylltu â chi pan fo angen ynghylch eich archeb neu ymholiad.

Bydd y wybodaeth a ddarparwch yn cael ei chadw ar gronfa ddata yng Nghymru a gellir cael mynediad at y wybodaeth gan ein staff a gan y rhai sy'n darparu gwasanaethau cefnogi i ni. Hefyd mae'n bosibl y byddwn yn rhannu'r wybodaeth gyda thrydydd parti lle bo angen er mwyn darparu gwasanaethau i chi, prosesu taliadau neu gyflawni neu ddanfon archebion. Mae'n bosibl y byddwn yn trosglwyddo gwybodaeth ynglŷn â'r defnydd o'n safle i drydydd parti, ond ni fydd hyn yn cynnwys gwybodaeth y gellid ei defnyddio i'ch adnabod chi.

Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth gydag unrhyw drydydd partio at ddibenion marchnata heb eich caniatâd.

Gwnawn ein gorau i sicrhau bod yr holl wybodaeth a gedwir amdanoch yn gyfredol, cywir a chyflawn. Ond rydym yn dibynnu hefyd arnoch i'n hysbysu os bydd angen diweddaru neu ddileu eich gwybodaeth. Byddwn yn ymateb i geisiadau gennych i ddiweddaru neu ddileu eich gwybodaeth mewn modd effeithiol ac amserol.

Os ydych chi'n aelod neu gefnogwr o ACTW byddwn yn anfon cylchlythyrau, gwybodaeth am gynadleddau, digwyddiadau arbennig a gweithgareddau eraill atoch yn rheolaidd yn ogystal â'r newyddion diweddaraf am brosiectau a gefnogir gennym, trwy'r post neu drwy gyfrwng e-bost.

Oni bai eich bod wedi nodi bod gennych wrthwynebiad i ddatgelu eich gwybodaeth i ni, bydd ein system yn anfon cwcis i'ch cyfrifiadur pan fyddwch yn mewngofnodi i'r safle. Cwcis yw ychydig o wybodaeth am eich arferion pori a gedwir gennym ar eich cyfrifiadur. Maent yn fodd i ni fonitro'r defnydd o'r wefan. Gallwch dderbyn neu wrthod cwcis. Mae'r rhan fwyaf o rai sy'n pori'r we'n derbyn cwcis, ond os yw'n well gennych mae'n bosibl addasu gosodiadau eich porydd er mwyn gwrthod pob cwci, neu er mwyn eich hysbysu bob tro yr anfonir cwci fel bod modd i chi dderbyn neu wrthod cwcis ar sail unigol. Os byddwch yn dewis gwrthod cwcis, gallai hynny amharu ar berfformiad y wefan. I gael manylion penodol ar sut i ffurfweddu eich porydd dylech gyfeirio at ei gyflenwr neu gynhyrchydd.

Rydym yn defnyddio mesurau diogelwch i ddiogelu eich gwybodaeth rhag bod unigolion heb ganiatâd yn cael mynediad i'r wybodaeth honno a rhag unrhyw brosesu anghyfreithlon, colled trwy ddamwain, difrod a niwed. Byddwn yn cadw eich gwybodaeth am gyfnod rhesymol neu cyhyd ag y mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

Mae gennych hawl i dderbyn copi o'ch data personol ac mae gennym ni'r hawl i godi tâl o £10 am hyn. Gallwch ofyn i ni wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gywir ac yn gyfredol.

Rydym yn croesawu unrhyw sylw, ymholiad neu gais ynglŷn â'n defnydd o'ch gwybodaeth. Anfonwch hwy at y Swyddog Diogelu data yn at: CACC, 17 Brynmawr Place, Maesteg, Pen-y-bont ar Ogwr, CF34 9PB neu anfonwch ebost: **DataProtectionOfficer@act-wales.org.uk**